



Bore Sul, Chwefror 2il, 2020



Croeso cynnes i bawb y bore 'ma. Aelodau Creigiau sy'n arwain yr oedfa, a diolchwn iddyn nhw. Bydd cymundeb yn rhan o'r oedfa, ac mae croeso i bawb gymryd rhan yn y weithred honno.

Grŵp Gofal y Capel

A oes diddordeb gyda chi i ymuno â grŵp gofal y capel? Rydyn ni yn griw o bobl sy'n cynrychioli gwahanol ardaloedd o fewn dalgylch y capel. Y bwriad yw creu rhwydwaith o bobl i ofalu am ein gilydd – i rannu newyddion a chopïau Tafod y Tab a bod yn gefn os oes angen. Mae'r grwp yn awyddus i ddenu criw o bobl ifanc er mwyn cael cyswllt â phobl o bob oed. Os hoffech air pellach, yna mynnwch air gydag un o'r cynrychiolwyr. O ran gwybodaeth dyma enwau'r cysylltwyr ardal presennol. Byddai'n braf ychwanegu at y rhestr – ac ardaloedd!

Creigiau - Jen McDonald a Nia Williams	Crown Hill, Gwaun Meisgyn a Beddau - Ann Rees
Groesfaen - Geraint Wyn Davies	Llantrisant - Rhiannon Price a Lowri Roberts
Meisgyn - Jane Eryl Jones	Parc Nantcelyn a gwaelod Efail Isaf - Judith Thomas
Penywaun a thop Efail Isaf - Loreen Williams	Tonteg - Elaine James ac Audrey Lewis
Pentre'r Eglwys - Rhiannon Humphreys, Eirian Rowlands a Carys Davies	
Pentyrch - Marian Wynne	Radyr, Gwaelod y Garth - Ros Evans

Yr Wythnosau Nesaf

Chwefror 9ed – y Parchg. Aled Edwards gyda
Carwyn Lloyd Jones

Chwefror 16 – Sul Pob Oed gyda
Gwerfyl a Tomos Morse

Chwefror 23ain – y Parchg Gethin Rhys gydag
Eluned Davies Scott

Mawrth 1af – Sul Tonteg a Phentre'r Eglwys

Mawrth 8ed – Dr Gareth Roberts, Bangor –
fel rhan o gyfres o gyn-aelodau yn dychwelyd
yn ein blwyddyn 150 oed, gyda Wyn Jones

Mawrth 15 – Sul i bob oed, gyda Gareth a
Rhiannon Humphreys

Mawrth 22 – y Parchg. Gethin Rhys

Mawrth 29 – Delyth Prys, Bangor (roedd y
Delyth Beasley ifancach yn aelod yn y
Tabernacl yn y 1970au)

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 11
Chwefror. Rhowch wybod i Gwilym
(gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205)
neu unrhyw aelod o'r Bwrdd **erbyn nos Lun 10**
Chwefror os hoffech godi unrhyw fater.



Cronfa Lesotho

Byddwn yn ail-lansio Cronfa
Lesotho ar ddiwedd yr oedfa
bore 'ma, ac wedi hynny unwaith
y mis. Byddwn yn gosod y
bowlen gasglu (gweler y llun
uchod) yng nghyntedd y capel i
dderbyn eich cyfraniad ar
ddiwedd yr oedfaon perthnasol.

EGLWYS DEMENTIA - GYFEILLGAR

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, dan arweiniad Rhys Llewelyn, yn dal i drafod ac ymgynghori er mwyn gwireddu hyn, gan ei bod yn hanfodol sicrhau cyngor proffesiynol, adnabod prosiectau sy'n weithredol yn yr ardal a derbyn arweiniad strategol Undeb yr Annibynwyr. Mae cynnig cefnogaeth deilwng ac addas i deuluoedd sy'n ymdopi â'r salwch creulon yma yn hollbwysig. Rydyn ni'n ystyried trefnu te pnawn yn Y Ganolfan, rhyddhau aelodau'r teulu am awr neu ddwy, neu gynnig mewnbwn Cymraeg i brosiectau sydd eisoes yn bodoli.

Os ydych chi'n awyddus i gyfrannu i'r trafodaethau mae croeso cynnes ichi yn ein cyfarfod nesa, nos Fawrth, 31 Mawrth am 7.30 yn Y Ganolfan.

ELUSENNAU 2020

Dyma'r elusennau dderbyniwyd gan Gyfarfod Blynyddol yr eglwys ar gyfer casgliad yr amlenni brown eleni: Gofalwyr Ifanc RhCT
Adref. Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru a Cwtch

Mae John Llew a Carys yn dal i gludo dillad a nwyddau i Adref a Cwtch, a Ros yn gofalu am y Banc Bwyd, yn ôl y drefn sydd wedi hen sefydlu ei hun dros y blynyddoedd. Daeth casgliad Nantgwyn i ben ym mis Ionawr. Bydd arian casgliad 2019 yn cael ei ddsbarthu yn ystod yr wythnosau nesa, £525 yr un i bump o elusennau. Diolch yn fawr i chi am eich haelioni.

NOSON GWBL UNIGRYW

Nos Sadwrn nesaf, o 5 i 8.30 yr hwyr, bydd canol y capel yn cael ei droi i mewn i blannetariwm hudol. Bydd seryddwyr yn rhoi gwersi ar yr hyn sydd i'w weld, a bydd telesgopau tu allan os bydd yr awyr yn glir. Gallwch drefnu lle i blant ac oedolion ar Eventbrite neu dudalen Facebook Pobl Efail Isaf. Bydd yr arian a godir yn helpu dalu am do newydd i Neuadd y Pentref.

Gwerthfawrogir unrhyw gymorth ar ddiwedd y sesiwn i ail osod y capel yn barod ar gyfer oedfa'r bore wedyn. Diolch.

CYLCH CADWGAN

7.30pm 14 Chwefror 2020

Yr Athro GERAINT JENKINS yn siarad ar y testun: 'Y Digymar Iolo Morganwg' yn y Ganolfan,

Cydnabyddir Cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

DATHLIADAU TAB150

Sadwrn, 2/5/2020 Bydd Pens a Penri yn cynnal taith gerdded i olrhain hanes sefydlu'r capel

Pnawn Gwener 8/5 Gŵyl y Banc - Dr Gareth Edwards yn cynnal sesiwn am ei atgofion o gael ei fagu yn Efail Isaf yn y 1940/50au

Noson Gwylwyr S4C

Estynnir gwahoddiad aelodau Capel y Tabernacl, Efail Isaf i Noson Gwylwyr S4C nos lau, 20fed Chwefror ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest. Noson anffurfiol a chymdeithasol fydd hon a chyfle i wrando ar farn gwylwyr am raglenni a gwasanaethau'r sianel. Hugh Hesketh Evans, Cadeirydd dros dro Awdurdod S4C a'r Prif Weithredwr, Owen Evans, fydd yn arwain y noson a bydd cyfle i gyfrannu i'r drafodaeth mewn grwpiau bychain. Bydd offer cyfieithu ar gael hefyd.

Ceir lluniaeth ysgafn wrth gyrraedd, cwis byr ar gychwyn y noson a siawns i bawb gael cip ar arlwy'r sianel dros y misoedd nesaf. Bydd angen cyrraedd Canolfan Gynadledda Prifysgol De Cymru, campws Trefforest erbyn 7yh ac mae'r noson yn dirwyn i ben tua 8.45yh fel arfer.

Os hoffech fynychu'r digwyddiad bydd angen cofrestru trwy ffonio 01352 754212 neu ebostio nosongwylwyr@s4c.cymru gan nodi enw, cyfeiriad a rhif cyswllt.

Newyddion Teuluol

Mae Taid a Nain, sef John a Margaret Pritchard Copley wrth eu boddau gyda'i hwyres fach, Sofia. Merch fach i Ria ac Adrian Morgan a chwaer fach i Mila.

Yr un yw pleser Gill a Wyn Rees wrth groesawu Greta i'r teulu. Merch fach Catrin a Paul, a anwyd yng Nghilgwri.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:

carolinerees2@hotmail.com

neu decstio Caroline ar 07539452130



MERCHED Y TAB

Dydd Mercher, 5 Chwefror, Coleg Cerdd Drama Caerdydd. Cyngerdd am 1.15 o'r gloch "Teyrnged i John Thomas, Pencerdd Gwalia". Cwrdd am 12.00 o'r gloch yn y Coleg.

Mae aelodau Merched y Tabernacl wedi cyfrannu £225 i Ganolfan Maggie, sef Canolfan Ganser Felind5re yn yr Eglwys Newydd.

Eglwys Masnach Deg

Bellach mae'r Tabernacl wedi ei chofrestru'n swyddogol fel Eglwys Masnach Deg. Golyga hyn ein bod wedi ein hymrwymo i:

a. Ddefnyddio te a choffi Masnach Deg ar gyfer yr holl gyfarfodydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt;

b. Symud ymlaen at ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg megis siwgr, bisgedi, siocled a ffrwythau;

c. Hwrwyddo Masnach Deg yn ystod Pythefnos Masnach Deg a gynhelir eleni rhwng dydd Llun 24 Chwefror a dydd Sul 8 Mawrth.

Felly cofiwch os byddwch yn trefnu paned de neu goffi yn y Ganolfan i ofalu defnyddio cynhwysion masnach deg.

Cydnabyddwn ein diolchiadau sylweddol unwaith eto i Gwilym ac Eleri Huws am gynhyrchu rhifyn diweddaraf Tafod y Tab. Mynnwch eich copi.